Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

23.06.2020

Annwyl Rieni/Gofalyddion

Rwy'n gobeithio eich bod chi â'ch teuluoedd yn iawn.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddydd Gwener y bydd tymor yr ysgol yn dod i ben ar y dyddiad gwreiddiol (dydd Gwener 17 Gorffennaf) ac nid wythnos yn hwyrach fel y cafodd ei awgrymu drwy'r cyfryngau yn ddiweddar. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd byddai'r wythnos wedi bod yn wirfoddol i staff, felly ni allem fod yn siŵr faint o ysgolion a allai agor yn ddiogel. Rydym yn gwybod bod angen i chi gynllunio ac roedd yn bwysig cynnig neges glir, gryno a chyson ar draws y fwrdeistref sirol gyfan.

Mae'n bwysig cydnabod bod penaethiaid a staff wedi gweithio'n galed er mwyn agor yr haf yma, ac roedden nhw'n awyddus i agor am gyfnod mwy hir a phosibl. Maen nhw'n brysur gyda'u cynlluniau i sicrhau bod gymaint o blant â phosibl yn gallu mynychu cymaint o sesiynau â phosibl.

Rydyn ni'n gwybod bod rhai plant yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r ysgol ar gyfer eu sesiynau "ailgydio, dal i fyny a pharatoi". Rydyn ni'n gwybod y bydd penaethiaid a staff yn gwneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod y profiadau yn rhai cadarnhaol. Mae rhai plant yn aros ychydig yn hirach i ddychwelyd, a bydd ysgolion yn parhau i'w cynorthwyo gyda'u dysgu hyd ddiwedd y tymor.

Dychwelyd i’r ysgol

Mae adrannau’r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gyda phenaethiaid i gytuno ar y canlynol:-

1. Asesiadau Risg. Bydd pob ysgol yn cwblhau asesiad risg ar gyfer ei safle cyn agor. Mae’r prosesau yma wedi’u cynorthwyo gan ein tîm Iechyd a Diogelwch.

2. Bydd y gwasanaethau arlwyo ddim yn weithredol am y tro a bydd angen i ddisgyblion ddod â phecynnau bwyd a diod eu hunain. Fydd llaeth ddim yn cael ei ddarparu’r tymor yma, ond bydd pob disgybl yn derbyn ‘bar brecwast’. Bydd y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn danfoniadau cartref a fydd hefyd yn cynnwys pecyn rhyngosod.

3. Glanhau - Bydd proses drylwyr o lanhau’r ysgol yn digwydd naill ai ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol, gyda glanhau yn ystod y dydd yn y cyfamser. Mae tîm glanhau symudol ar gael ar gyfer achosion argyfwng.

4. Cludiant Bws. Oherwydd y gofynion pellhau cymdeithasol, mae'r ddarpariaeth drafnidiaeth sydd ar gael yn gyfyngedig iawn. O ganlyniad, gofynnir i rieni drefnu eu cludiant eu hunain lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, os yw'ch plentyn yn gymwys i gael cludiant ac nad oes gennych unrhyw ddull arall o gludiant, mae'r adran Drafnidiaeth yn y broses o gadarnhau trefniadau gydag ysgolion, lle mae hyn yn bosibl. Os oes angen cludiant arnoch rhaid i chi hysbysu ysgol eich plentyn ar unwaith.

5. Cludiant Tacsi. Nid yw'n bosibl cyflawni'r gofynion pellhau cymdeithasol lleiaf mewn tacsis 4 sedd. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad oni bai bod plentyn yn cael ei ystyried yn fregus, ni fydd y tacsis hyn yn cael eu defnyddio. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i nodi'r disgyblion bregus hyn a lle bo hynny'n bosibl, yn cynnig math arall o gludiant. Bydd darparu hebryngwyr ar gontractau tacsi mwy o 6 i 8 sedd yn cael eu hystyried fesul achos, oherwydd gall ychwanegu hebryngwr olygu na ellir cwrdd

â'r gofynion pellhau cymdeithasol. Os oes angen cludiant arnoch rhaid i chi hysbysu ysgol eich plentyn ar unwaith.

Am y cyfnod o 3 wythnos, ni fydd patrolau croesi ysgolion ar gael.

6. Polisïau wedi'u diweddaru - mae polisïau wedi'u diweddaru, fel y bo'n briodol, cyn i ysgolion agor, e.e. Cymorth Cyntaf.

7. Cadw pellter cymdeithasol. Mae ysgolion wedi'u paratoi a'u haildrefnu i sicrhau arferion cadw pellter cymdeithasol priodol. Siaradwch â'ch plant am yr angen i ddilyn y rheolau hyn, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran.

Deallaf y bydd rhai ohonoch yn bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol ar fin digwydd, yn enwedig gan ein bod yn gwybod y bydd yn wahanol iawn. Edrychwch ar fideo Richard Owen, Pennaeth Gweithredol Ysgol Idris Davies 3-18, yn siarad am yr hyn y gall rhieni a disgyblion ei ddisgwyl wrth ddychwelyd i ysgolion yng Nghaerffili i gael archwiliad i mewn a dal i fyny'r wythnos nesaf. Rwy'n siŵr ar ôl gwylio'r fideo y byddwch chi'n teimlo'n llawer gwell ac yn dawel ein meddwl ein bod ni wedi cael sylw i hyn a bydd eich plentyn / plant yn ddiogel ac yn hapus yn amgylchedd yr ysgol.

https://youtu.be/mY5slCnmbTs

Rhaid i'ch penaethiaid rheoli uchafswm o 30% o ddisgyblion ar y safle ar unrhyw adeg, felly rhaid iddyn nhw gynllunio'n ofalus gyda'u hamgylcheddau newydd. Mae gan ysgolion systemau unffordd ar waith, gorsafoedd glanweithio a sawl nodwedd yr ydym wedi dod yn gyfarwydd â nhw dros yr wythnosau diwethaf.

Felly, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad a dim ond yn mynychu ar y diwrnodau a'r amseroedd a ddyrannwyd, er mwyn cynnal pellter cymdeithasol.

Ni ddylai plant ddod i'r ysgol os oes llythyr 'amddiffyn' ganddyn nhw neu os ydyn nhw'n dangos symptomau. Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau yn ystod y diwrnod ysgol, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi er mwyn casglu'ch plentyn.

Byddaf yn ysgrifennu'r wythnos hon at y sawl sy'n weithwyr allweddol, er mwyn cynghori chi o'r dewisiadau sydd ar gael dros yr haf a thu hwnt,

Mae'r sefyllfa wedi bod yn anodd iawn i bawb, a rhai wedi'u heffeithio gan golled a galar yn uniongyrchol. Bydd penaethiaid a staff, ynghyd â'r awdurdod lleol, yn parhau i gynnig cymorth a chyngor lle bynnag y bo modd.

Fel Cyngor, rydym yn falch iawn o ba mor galed y mae staff wedi gweithio trwy'r cyfnod heriol hwn - yn aml yn arwain yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol sifftiau yn yr hybiau gofal plant, yn ogystal â pharhau i addysgu a chefnogi eu plant eu hunain.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am y rôl rydych chi wedi'i chwarae wrth helpu i sicrhau bod plant yn parhau ag addysg gartref dros yr ychydig fisoedd diwethaf - yn sicr nid yw wedi bod yn hawdd!

Diolch.

Keri Cole

Prif Swyddog Addysg.